# Cynorthwyydd Cynnal a Chadw Adeiladau
# Rhif y Swydd: NU136

**Gradd 8**
**£24,313 - £26,317**
**Parhaol**
**37 awr yr wythnos**

Mae'r swydd wag uchod wedi codi o fewn Adran Gwasanaethau Eiddo Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a leolir yn y Pencadlys Parc Busnes Forest View, Llantrisant.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am geisio atebion gwerth gorau i faterion adeiladu bob dydd er mwyn sicrhau bod asedau eiddo'r Gwasanaeth yn cael eu cynnal yn dda, yn addas i'r diben, ac yn gallu cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Rhaid i ymgeiswyr feddu ar gymhwyster cydnabyddedig mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig ag adeiladu a/neu brofiad perthnasol mewn amgylchedd adeiladu.

Rhaid iddynt hefyd feddu ar brofiad blaenorol o weithio mewn amgylchedd cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith adweithiol, gyda thystiolaeth o brofiad o ysgrifennu adroddiadau a manylebau yn ymwneud â mân waith adeiladu.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau addas. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **5.00 yh ar Dydd Mercher 24 Gorffennaf 2019.** Ceir pecyn cais trwy law e-bost neu drwy ffonio 01443 232200 neu ein Llinell Recriwtio 24 awr ar 01443 232333. **Dyfynnwch Rif Cyfeirnod y swydd wag hon os gwelwch yn dda.**

Mae'r Gwasanaeth yn annog ceisiadau am gyflogaeth gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn enwedig menywod, pobl dduon a grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a siaradwyr Cymraeg.

---

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad boddhaol gan Wasanaeth Datgelu'r Alban ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

---

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gyrfaoedd ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

A fyddech cystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

